## ATODLEN 1

Rheoliad 3(2)

## GORCHMYNION ETC. SY'N YMWNEUD Â GOFALU AM BLANT

### Gorchmynion gofal, goruchwylio a sefydlogrwydd

**1.** Gorchymyn o dan adran 31(1)(a) o Ddeddf 1989 (gorchymyn gofal).

**2.** Gorchymyn o dan adran 31(1)(b) o Ddeddf 1989 (gorchymyn goruchwylio).

**3.** Gorchymyn o dan Erthygl 50(1)(a) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995(**1**) (gorchymyn gofal).

**4.** Gorchymyn o dan Erthygl 50(1)(b) o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (gorchymyn goruchwylio).

**5.** Gorchymyn o dan adran 3(3) o Gyfraith Plant a Phobl Ifanc (Guernsey) 1967(**2**) (gorchymyn person addas neu orchymyn gofal arbennig).

**6.** Gorchymyn a wnaed yn dilyn cais fel y'i caniatawyd o dan adran 48(3) o Gyfraith Plant (Guernsey ac Alderney) 2008(**3**) (gorchymyn rhianta cymunedol).

**7.** Gorchymyn o dan adran 31(1)(a) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald)(**4**) (gorchymyn gofal).

**8.** Gorchymyn o dan adran 31(1)(b) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) (gorchymyn goruchwylio).

**9.** Gorchymyn neu benderfyniad a bennir yn Atodlen 4 i Gyfraith Plant (Jersey) 2002(**5**).

**10.** Unrhyw orchymyn a fyddai wedi cael ei farnu'n orchymyn gofal yn rhinwedd paragraff 15 o Atodlen 14 i Ddeddf 1989 (darpariaethau trosiannol ar gyfer plant mewn gofal gorfodol) pe bai wedi bod mewn grym yn union cyn y diwrnod y daeth Rhan 4 o Ddeddf 1989 i rym.

**11.** Gorchymyn cyfrifoldeb rhiant a wneir o dan Erthygl 7 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995.

**12.** Gorchymyn amddiffyn plant o dan adran 57 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995(**6**) neu o dan adran 37 o Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011(**7**).

**13.** Gorchymyn sefydlogrwydd a wnaed, neu a drinnir fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 80 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant (Yr Alban) 2007(**8**).

### Gorchmynion sy'n gosod gofyniad preswylio neu wahardd

**14.** Gorchymyn goruchwylio sy'n gosod gofyniad preswylio o dan baragraff 5 o Atodlen 6 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(**9**), adran 12AA o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc

---

(**1**) O.S. 1995/755 (G.I. 2).
(**2**) Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor Cyfrol XXI, t. 34. Diddymwyd adran 3(3) gan adran 3 o Ordinhad Plant (Diwygiadau Canlyniadol etc.) (Guernsey ac Alderney), 2009 (Rhif VII 2010), a pharagraff 15(1) o Atodlen 1 iddo, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol yn adran 4 o'r Ordinhad hwnnw ac Atodlen 2 iddo.
(**3**) Rhif XIV 2009.
(**4**) 2001 p. 20 (Deddf Tynwald).
(**5**) Cyfraith Jersey 50/2002.
(**6**) 1995 p. 36. Diddymwyd adran 57 gan baragraff 1 o Atodlen 26 i Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011 (dsa 1).
(**7**) 2011 dsa 1.
(**8**) 2007 dsa 4.
(**9**) 2000 p. 6. Fe'i diddymwyd gan baragraff 1 o Atodlen 28(1) i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (p. 4), yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 27 i'r Ddeddf honno.

1969(**10**) (gofyniad i fyw mewn llety awdurdod lleol), paragraff 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008(**11**) neu baragraff 25 o Atodlen 6 i'r Cod Dedfrydu.

**15.** Gorchymyn person addas, gorchymyn hawliau rhiant neu orchymyn ysgol hyfforddi o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**12**).

**16.** Gorchymyn gwahardd o dan adran 76 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.

**17.** Gorchymyn goruchwylio sy'n gosod gofyniad preswylio o dan baragraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) (gofyniad i fyw mewn llety a ddarperir gan yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol).

**18.** Gorchymyn a wneir ar unrhyw adeg, sy'n gosod gofyniad goruchwylio mewn cysylltiad â phlentyn er mwyn symud y plentyn hwnnw o ofal P, o dan—

(a) adran 44 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**13**), neu

(b) adran 70 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995(**14**).

**19.** Gorchymyn a wneir ar unrhyw adeg, sy'n breinio hawliau a phwerau P mewn cysylltiad â phlentyn mewn awdurdod lleol yn yr Alban—

(a) o dan adran 16 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**15**), neu

(b) yn unol â gorchymyn cyfrifoldebau rhiant o dan adran 86 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995(**16**).

**20.** Gorchymyn goruchwylio gorfodol, o fewn ystyr "compulsory supervision order" yn adran 83 o Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011, neu orchymyn goruchwylio gorfodol interim, o fewn ystyr "interim compulsory supervision order" yn adran 86 o'r Ddeddf honno, a wneir ar unrhyw adeg mewn cysylltiad â phlentyn er mwyn symud y plentyn hwnnw o ofal P.

**Penderfyniadau mewn perthynas ag addasrwydd P i ddarparu gofal**

**21.** Mewn perthynas â chofrestru cartref plant—

(a) gwrthod cais P i gofrestru o dan adran 13 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**17**),

(b) canslo cofrestriad P o dan adran 14 neu 20(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000,

(c) canslo cofrestriad unrhyw berson o dan adran 14 neu 20(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â chartref plant y mae P wedi bod yn ymwneud â'i reoli, neu y mae gan P unrhyw fuddiant ariannol ynddo, neu

(d) gwrthod cais P i gofrestru neu ganslo cofrestriad P o dan Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003(**18**).

**22.** Mewn perthynas â chofrestru gwasanaeth cartref gofal, a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sydd o dan 18 oed, neu wasanaeth llety diogel (mae i bob un yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**19**) ("Deddf 2016"))—

(a) gwrthod cais P i gofrestru o dan adran 7 o Ddeddf 2016,

(**10**) 1969 p. 54. Fe'i diddymwyd gan baragraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (p. 6).
(**11**) Fe'i diddymwyd gan baragraff 1 o Atodlen 28 i Ddeddf Dedfrydu 2020, yn ddarostyngedig i arbedion a darpariaethau trosiannol a bennir yn adrannau 412 a 416 o'r Ddeddf honno, a pharagraffau 1, 2, 4 a 5 o Atodlen 27 iddi.
(**12**) Diddymwyd y darpariaethau sy'n ymwneud â'r gorchmynion hyn gan O.S. 1995/755 (G.I. 2) ac O.S. 1998/1504 (G.I. 9).
(**13**) 1968 p. 49. Diddymwyd adran 44 gan baragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.
(**14**) Diddymwyd adran 70 gan baragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Gwrandawiadau Plant (Yr Alban) 2011.
(**15**) Diddymwyd adran 16 gan baragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995.
(**16**) Diddymwyd adran 86 gan baragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant (Yr Alban) 2007 (dsa 4).
(**17**) 2000 p. 14.
(**18**) O.S. 2003/431 (G.I. 9).
(**19**) 2016 dccc 2.

(b) gwrthod o dan adran 12 o Ddeddf 2016 gais P i amrywio cofrestriad P (a wneir yn unol ag adran 11(1)(a)(i) neu (ii) o'r Ddeddf honno),

(c) canslo cofrestriad P o dan adran 15(1)(b) i (f) neu 23(1) o Ddeddf 2016,

(d) canslo cofrestriad unrhyw berson o dan adran 15(1)(b) i (f) neu 23(1) o Ddeddf 2016 mewn perthynas â gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sydd o dan 18 oed, neu wasanaeth llety diogel, y mae P wedi bod yn ymwneud â'i reoli, neu yr oedd gan P fuddiant ariannol ynddo, neu

(e) gwrthod cais P i gofrestru neu ganslo cofrestriad P o dan Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003.

**23.** Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru mewn perthynas â chartref gwirfoddol neu gartref plant, neu ganslo cofrestriad cartref gwirfoddol neu gartref plant a oedd yn cael ei gynnal gan P neu yr oedd P fel arall yn ymwneud â'i reoli, neu yr oedd gan P unrhyw fuddiant ariannol ynddo, o dan, yn ôl y digwydd—

(a) paragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 1989(**20**),

(b) paragraff 1 neu 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1989(**21**),

(c) adran 127 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**22**),

(d) Erthygl 80, 82, 96 neu 98 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995(**23**),

(e) Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**24**) (gwasanaethau cartrefi gofal),

(f) paragraff 2 neu 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald)(**25**), neu

(g) Rhan 5 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010(**26**).

**24.** Gwaharddiad a osodir ar unrhyw adeg o dan—

(a) adran 69 o Ddeddf 1989, adran 10 o Ddeddf Plant Maeth 1980(**27**) neu adran 4 o Ddeddf Plant 1958 (pŵer i wahardd maethu preifat)(**28**),

(b) Erthygl 110 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (pŵer i wahardd maethu preifat),

(c) adran 10 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (pŵer i wahardd cadw plant maeth)(**29**), neu

(d) adran 59 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) (pŵer i wahardd neu osod gwaharddiadau o dan faethu preifat).

**25.** Hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan Fwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan adran 1(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**30**) (gwrthod cydsynio i berson ofalu am y plentyn a'i gynnal).

**26.** Gwrthod ar unrhyw adeg gofrestriad mewn cysylltiad â darparu meithrinfeydd, gofal dydd, gwarchod plant neu ddarpariaeth gofal plant arall, anghymhwyso rhag cofrestru o'r fath neu ganslo unrhyw gofrestriad o'r fath o dan—

---

(**20**) Fe'i diddymwyd o ran Cymru a Lloegr gan adran 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi.
(**21**) Fe'i diddymwyd o ran Cymru a Lloegr gan adran 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi.
(**22**) Diddymwyd adran 127 gan Erthygl 117(2) o O.S. 1995/755 (G.I. 2) a pharagraff 1 o Atodlen 10 iddo.
(**23**) Diddymwyd Erthyglau 80, 82, 96 a 98 gan Erthygl 50(2) o O.S. 2003/431 (G.I. 9) a pharagraff 1 o Atodlen 5 iddo.
(**24**) 2001 dsa 8. Diddymwyd Rhan 1 gan baragraff 37 o Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 (dsa 8), gydag arbedion a bennir yn erthygl 2 o O.S.A. 2011/169.
(**25**) Diddymwyd Atodlen 6 gan adran 199 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal 2013 (Deddf Tynwald) (p. 10).
(**26**) 2010 dsa 8.
(**27**) 1980 p. 6. Diddymwyd adran 10 gan adran 108 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 15 iddi.
(**28**) 1958 p. 65. Diddymwyd Deddf Plant 1958, gydag arbedion, gan adran 23 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 3 iddi ac adran 22 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (p. 56) ac Atodlen 3 iddi. Mae Deddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a nodir yn y Ddeddf honno.
(**29**) 1984 p. 56.
(**30**) Diddymwyd adran 1 gan Erthygl 185(2) o O.S. 1995/755 (G.I. 2) a pharagraff 1 o Atodlen 10 iddo.

(a) adran 1 neu 5 o Ddeddf Rheoleiddio Meithrinfeydd a Gwarchodwyr Plant 1948(**31**),

(b) Rhan 10 neu 10A o Ddeddf 1989(**32**),

(c) Pennod 2, 3 neu 4 o Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**33**),

(d) Rhan 11 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995,

(e) adran 11(5) neu 15 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968,

(f) Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**34**),

(g) adran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Meithrinfeydd a Gwarchodwyr Plant 1974(**35**) (Deddf Tynwald),

(h) adran 65 neu 66(**36**) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) neu Atodlen 7(**37**) iddi,

(i) Rhan III o Gyfraith Amddiffyn Plant (Guernsey) 1972, neu

(j) Rhan 2 o'r Mesur.

**27.** Anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant ar unrhyw adeg o dan Ddeddf Amddiffyn Plant (Yr Alban) 2003(**38**).

**28.** Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru neu ganslo cofrestriad P o dan adran 62 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968(**39**) (cofrestru sefydliadau preswyl a sefydliadau eraill).

**29.** Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru yn ddarparwr asiantaeth gofal plant o dan adran 7 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 neu ganslo unrhyw gofrestriad o'r fath o dan adran 12 neu 18 o'r Ddeddf honno(**40**).

**30.** Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru yn ddarparwr asiantaeth gofal plant o dan adran 59 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 neu ganslo unrhyw gofrestriad o'r fath o dan adran 64 neu 65 o'r Ddeddf honno.

**31.** Gwrthod ar unrhyw adeg gais P i gofrestru neu ganslo cofrestriad P o dan adran 60 o Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010.

**32.** Cynnwys enw P ar unrhyw adeg ar restr o bersonau sy'n anaddas i weithio gyda phlant o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant ac Oedolion Hyglwyf (Gogledd Iwerddon) 2003 neu anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Gorchymyn hwnnw(**41**).

---

(**31**) 1948 p. 53. Diddymwyd y Ddeddf hon, gydag arbedion, gan adran 108 o Ddeddf 1989 a pharagraffau 33 a 34 o Atodlen 14 a pharagraff 1 o Atodlen 15 iddi.

(**32**) Diddymwyd Rhan 10 o ran Cymru a Lloegr gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac o ran yr Alban gan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 (dsa 8) ac Atodlen 4 iddi. Diddymwyd Rhan 10A o ran Cymru gan adran 73 o'r Mesur ac Atodlen 2 iddo.

(**33**) 2006 p. 21.

(**34**) Diddymwyd Rhan 1 gan baragraff 37 o Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010, gydag arbedion a bennir yn erthygl 2 o O.S.A. 2011/169.

(**35**) 1974 p. 12 (Deddf Tynwald). Diddymwyd y Ddeddf hon gan adran 105 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) ac Atodlen 13 iddi.

(**36**) 2001 p. 20. Diddymwyd adrannau 65 a 66 gan adran 196 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal 2013 (Deddf Tynwald) (p. 10).

(**37**) Diddymwyd Atodlen 7 gan adran 199 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal 2013 (Deddf Tynwald).

(**38**) 2003 dsa 5. Diddymwyd y Ddeddf hon gan baragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Amddiffyn Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007 (dsa 14) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a nodir yn erthyglau 3 i 12 o O.S.A. 2010/180.

(**39**) 1968 p. 49. Diddymwyd adran 62 gan adran 80(1) o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 21 o O.S.A. 2011/121.

(**40**) Diddymwyd adrannau 7, 12 a 18 yn yr Alban gan baragraff 37 o Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010, yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn erthygl 21 o O.S.A. 2011/121.

(**41**) O.S. 2003/417 (G.I. 4). Dirymwyd Erthygl 3 a Phennod 2 o Ran 2 o'r Gorchymyn hwnnw yn rhannol gan Erthygl 60(2) o O.S. 2007/1351 (G.I. 11), a pharagraff 1 o Atodlen 8 iddo, at ddibenion a bennir yn Erthygl 4 o Rh.S. 2009/346 ac Erthygl 3 o Rh.S. 2010/145.